



Ymchwil i'r polisi priso mynediad mewn amgueddfeydd a'i effaith: Crynodeb Gweithredol Rhagfyr 2023

Comisiynwyd ymchwil gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) a'i phartneriaid Arts Council England (ACE), Museums and Galleries Scotland (MGS), Llywodraeth Cymru, Cyngor y Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol (NMDA) ac Art Fund, gan DC Research Ltd mewn partneriaeth gyda Durnin Research Ltd i gyflenwi **'Ymchwil i'r polisi prisio mewn amgueddfeydd a'i effaith'**.

Nodau'r ymchwil oedd:

- I ddeall strategaethau prisio, modelau a meincnodau presennol a phol, a'u heffaith lefel uwch ar gynulleidfaedd amgueddfeydd; a sut y gall amgueddfeydd addasu prisio i ymateb i'r amgylchedd presennol ac i baratoi am y dyfodol.
- I greu allbynnau y gall amgueddfeydd eu defnyddio wrth benderfynu ar strategaethau mynediad sydd yn gwneud y gorau o incwm gan bobl sydd yn gallu talu, yn rhoi'r amgueddfa yn nosbarth prisio cywir y farchnad, tra yn dal i gynnig opsiynau prisio sydd yn ei gwneud yn hygyrch a chroesawgar i bawb.

Ymdrinnir â'r cyntaf o'r nodau hyn ym mhrif adroddiad yr ymchwil a'r crynodeb gweithredol hwn o'r adroddiad hwnnw. Ymdrinnir â'r ail o'r nodau hyn yn y ddogfen ganllawiau ar wahân sydd wedi ei datblygu fel rhan o gyfres o gyhoeddiadau fel rhan o'r ymchwil hon.

Roedd pedwar prif cam i'r ymchwil:

- Ymchwil a Dadansoddiad Desg.
- Arolwg o'r Sector Amgueddfeydd (cafwyd 344 o ymatebion dilys).
- Ymgynghoriadau Amgueddfeydd (trafodaethau manwl gyda 29 o amgueddfeydd).
- Datblygu enghreifftiau astudiaeth achos ynghylch prisio mynediad.



**Safle Prasio
Presennol
Amgueddfeydd**



Safle Priso Presennol Amgueddfeydd

Mae ychydig dros hanner (51%) o amgueddfeydd sydd yn ymateb i'r arolwg yn codi pris ar gyfer mynediad cyffredinol, tra nad yw dros draean ohonynt (36%) yn codi unrhyw dâl mynediad o gwbl. Mae ychydig yn llai nag un o bob deg (8%) yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol a mynediad i arddangosfeydd penodol, tra bod 4% yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig.

Ar y cyfan, mae hyn yn dangos fod 64% o amgueddfeydd yn codi tâl ar gyfer mynediad mewn rhyw ffurf, tra bod 36% o amgueddfeydd yn adrodd nad ydynt yn codi tâl ar gyfer mynediad o gwbl.

Mae cymharu'r canlyniadau hyn â'r ymchwil flaenorol 'Taking Charge' (2016) yn dangos fod cyfran uwch o amgueddfeydd erbyn hyn yn codi tâl mynediad ar gyfer mynediad cyffredinol (51% yn 2023 o gymharu â 42% yn 2016), a bod lleihad yn y rhai nad ydynt yn codi tâl gwbl (o 43% i 36%). Mae lleihad hefyd yn y gyfran o amgueddfeydd sydd yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol (o 12% i 8%).

Mae amgueddfeydd awdurdod lleol yn llai tebygol o godi tâl ar gyfer mynediad nag amgueddfeydd annibynnol na rhai cyn-awdurdod lleol. Nid yw 71% o amgueddfeydd awdurdod lleol yn codi tâl tra bod dim ond 33% o amgueddfeydd annibynnol a chyn-awdurdod lleol yn peidio â chodi unrhyw dâl o gwbl. Nid yw amgueddfeydd prifysgol yn codi tâl o gwbl ar gyfer mynediad, mae Amgueddfeydd Cenedlaethol yn codi tâl mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig, ac mae amgueddfeydd milwrol yn fwy tebygol o godi tâl mynediad o'u cymharu â'r cyfartaledd cyffredinol.

Dim ond amrywiannau daearyddol bach sydd yn nhermau codi tâl mynediad. Mae amgueddfeydd yn Llundain a De Orllewin Lloegr ychydig yn fwy tebygol o beidio â chodi tâl mynediad, tra bod amgueddfeydd yng Ngogledd Lloegr yn fwy tebygol o godi tâl mynediad cyffredinol o'u cymharu â'r cyfartaledd, sydd hefyd yn wir o amgueddfeydd yng Nghymru.

Mae amgueddfeydd sydd â chyllidwyr craidd yn gyfrifol am fwy na 75% o'u hincwm yn llai tebygol o godi tâl mynediad (nid yw 64% o'r amgueddfeydd hyn yn codi tâl o'u cymharu â 36% ar y cyfan). Mae amgueddfeydd sydd heb unrhyw gyllidwyr craidd yn adlewyrchu'r safle cyffredinol yn agos gyda 35% yn peidio â chodi tâl mynediad o'u cymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 36%.

Mae'r rhai sydd â chyllidwyr craidd yn gyfrifol am lai na chwarter o'u hincwm yn fwy tebygol o godi tâl mynediad (mae 86% yn codi tâl mynediad mewn rhyw ffurf, o'u cymharu â 64% ar y cyfan) – sydd i'w ddisgwyl gan y byddent yn dibynnu'n fwy ar ffrydau incwm eraill oherwydd cyllido craidd cyfyngedig. Yn ddiddorol, mae'r rhai sydd â chyllidwyr craidd yn gyfrifol am rhwng 25% a 50% o'u hincwm, ac i raddau hyd yn oed yn fwy, rhwng 50% a 75% o'u hincwm yn fwy tebygol o godi tâl mynediad. Mae 72% o'r rhai sydd â chyllidwyr craidd yn gyfrifol am rhwng 25% a 50% o'u hincwm yn codi tâl mynediad tra bod 79% o'r rhai sydd â chyllido craidd o rhwng 50% a 75% o'u hincwm yn codi tâl mynediad – o'u cymharu â 64% ar y cyfan.

Mae asesu'r polisi priso mynediad presennol mewn perthynas ag arwyddocâd yr economi ymwelwyr ar gyfer yr ardal leol, yn dangos fod amgueddfeydd sydd ag economi ymwelwyr 'nad yw'n arwyddocaol o gwbl' yn llai tebygol o godi tâl mynediad (13% o'u cymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 64%). Ar y llaw arall, mae amgueddfeydd sydd yn disgrifio eu heconomi ymwelwyr lleol fel 'sector allweddol' neu 'un o nifer o sectorau arwyddocaol' yn fwy tebygol o godi tâl mynediad (73% a 72% yn ôl eu trefn o'u cymharu â 64% ar gyfartaledd).

Mae perthynas glir iawn yn dod i'r amlwg pan gaiff pwysigrwydd hunan-adroddedig yr amgueddfa i'r economi ymwelwyr lleol ei ystyried yn gymharol i'r polisi prasio mynediad presennol:

- Pan nodir yr amgueddfa fel 'ddim yn bwysig o gwbl' – 27% yn codi tâl.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'atyniad o fân arwyddocâd' – 55% yn codi tâl.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'atyniad o arwyddocâd cymedrol' – 62% yn codi tâl.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'un o nifer o atyniadau arwyddocaol' – 72% yn codi tâl.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'atyniad allweddol' – 81% yn codi tâl.

Mae edrych ar y safle codi tâl yn gymharol â'r math o ymwelwyr y mae amgueddfeydd fel arfer yn eu cael yn dangos fod amgueddfeydd ble mae'r gyfran o ymwelwyr lleol yn cyfri am fwy na 50% o'r gynulleidfa yn llai tebygol o godi tâl mynediad (nid yw 41% yn codi tâl) o'u cymharu â'r rhai ble mae'r gyfran o ymwelwyr lleol yn llai na 50% o'r gynulleidfa (nid yw 24% yn codi tâl).

Newidiadau i Safle Prasio Mynediad Amgueddfeydd mewn Blynyddoedd Diweddar

Holodd yr arolwg am newidiadau diweddar i safle codi tâl mynediad ac yn ôl hanner yr ymatebwyr (50%) nid oeddent wedi gwneud unrhyw newidiadau o gwbl.

I'r amgueddfeydd hynny a oedd wedi newid eu safle codi tâl mynediad, y newid mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd y cynnydd mewn prisiau mynediad (70%), ac yna'r cyflwyniad o fathau newydd o docyn mynediad (30%). Dim ond lleiafrif bach o ymatebwyr (5%) a oedd yn adrodd cyflwyno lleihad yn eu prisiau mynediad dros y cyfnod hwn.

Yn nhermau gwneud newidiadau mwy sylfaenol i'w prasio mynediad, adroddwyd gan 18% eu bod wedi symud o godi tâl mynediad i beidio â chodi tâl mynediad yn ystod y cyfnod hwn, tra bod 11% wedi symud o beidio â chodi tâl mynediad i godi tâl mynediad.

Enwyd amrywiaeth o ffactorau gan amgueddfeydd a oedd yn adrodd cynnydd prisiau, ac roedd yr angen i godi incwm yn tanategu'r ffactorau hyn. Y prif reswm dros hyn yw costau cynyddol, yn ogystal â'r angen i wneud yr amgueddfa yn fwy cynaliadwy, tra bod rhai yn cysylltu hyn i effaith y pandemig, a'r angen i ymateb i gwymp refeniw.

Eglurwyd gan rai amgueddfeydd a oedd yn newid eu dull gweithredu o ran codi tâl mai'r angen i symleiddio tocynnau, cynyddu ymwelwyr (yn gyffredinol yn ogystal â thargeddu grwpiau penodol fel teuluoedd neu bobl ifanc ar ôl y pandemig), a gwella eu cynnig o ganlyniad i ailddatblygu neu adnewyddu a oedd yn llywio hyn.

Roedd y mwyafrif o amgueddfeydd a oedd yn adrodd symud o godi tâl i beidio â chodi tâl yn gwneud hyn er mwyn cynyddu ymwelwyr a gwneud y gorau o roddion mewn ffyrdd amrywiol. Yn ôl yr amgueddfeydd a oedd yn symud o beidio â chodi tâl i godi tâl, cynaliadwyedd oedd y prif ffactor am wneud hyn.

Amlygwyd meincnodi a dadansoddi cystadleuwyr gan lawer o amgueddfeydd fel rhan bwysig o'r broses o wneud penderfyniadau am godi tâl, gyda rhai yn amlygu pwysigrwydd y dull gweithredu hwn mewn cydbwysu'r angen i gynhyrchu incwm yn erbyn cyflawni pwrpas cyffredinol i'r amgueddfa.

Amlygwyd adolygiadau ffurfiol gan rai amgueddfeydd fel rhan bwysig o'r broses o wneud penderfyniadau am newidiadau i fynediadau, yn arferol fel rhan o gylch cynllunio busnes blynyddol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, gan gynnwys y rhai ble'r oedd adolygiadau a dadansoddi wedi digwydd, y trefniadau llywodraethu a'r prosesau yn eu lle ymhob amgueddfa a oedd yn gwneud y penderfyniadau ar bolisi mynediad. Fel arfer, bwrdd yr ymddiriedolwyr dan argymhelliad yr uwch reolwyr a fydd yn gwneud hyn.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau dilynol i'r amgueddfeydd nad oedd wedi newid eu safle prisio mynediad mewn blynyddoedd diweddar. Mae'n ddiddorol nodi o'r amgueddfeydd hynny nad oedd yn adrodd unrhyw newid, fod bron i ddau draean (64%) ohonynt yn dweud nad oeddent wedi ystyried gwneud unrhyw newidiadau i'w safle mynediadau dros y cyfnod hwn o amser. Mae'r rhai nad ydynt yn codi tâl mynediad yn fwy tebygol o lawer o beidio ag ystyried gwneud newid. Yn ôl 76% o'r rhai nad ydynt yn codi tâl, nid oeddent yn ystyried gwneud newid, tra bod llai na hanner ohonynt sydd yn codi tâl mynediad (47%) yn adrodd nad oeddent yn ystyried gwneud newid.

Mae hyn yn awgrymu felly fod carfan nodedig o amgueddfeydd (tua un chwarter o ymatebwyr yr arolwg) nad ydynt yn codi tâl mynediad, ac nad ydynt wedi ystyried newid y safle hon dros y blynyddoedd diweddar.

Yn ôl llawer o'r ymatebwyr hynny nad oeddent wedi newid eu safle prisio ond a oedd wedi ystyried gwneud newidiadau i'w safle codi tâl mynediad, roedd pwysau costau byw presennol yn ffactor allweddol, yn seiliedig ar bryderon am yr effaith negyddol posib y bydd unrhyw newidiadau yn eu cael ar hygyrchedd, ymgysylltiad â grwpiau cynulleidfaoedd targed a niferoedd ymwelwyr.

Adroddwyd gan nifer o'r amgueddfeydd a oedd yn ymateb eu bod yn adolygu eu polisi mynediad yn weithredol neu yn cynllunio i'w newid yn 2023. Y rhesymau allweddol dros hyn oedd adennill ar ôl y pandemig a gwaith trwsio yn digwydd.

Yn nhermau'r prif ffactorau a oedd yn dylanwadu ar y penderfyniad potensial i newid prisio yn 2023, nodwyd yr angen i dalu costau cynyddol, cynyddu incwm, neu gynnal cynaliadwyedd ariannol gan lawer o amgueddfeydd sydd yn ystyried newid fel hyn. Mae'r costau hyn yn cynnwys staffio, ynni a chyfleustodau, cost arddangosfeydd llwyfan, ac incwm a gollwyd yn ystod y pandemig.

Ystyriaethau eraill o ran Prisio

Mae casgliadau ychwanegol ar agweddau ac ystyriaethau eraill am brisio yn cynnwys:

- Mae ychydig iawn o amgueddfeydd (2%) wedi defnyddio prisio deinamig ar gyfer mynediad, er bod un pumed wedi ystyried gwneud hyn.
- Mae bron i un o bob deg o ymatebwyr (9%) wedi defnyddio 'Pay What You Can / Pay What You Like', ac mae un pumed arall wedi ystyried gwneud hyn.
- Mae tua un o bob deuddeg (8%) o ymatebwyr yn adrodd defnyddio codi tâl ar gyfer mynediad rhithiol neu ar-lein i'r amgueddfa, gydag un pumed arall (20%) wedi ystyried gwneud hyn.
- Mae codi tâl mynediad penodol ar gyfer ymweliadau ysgol yn fwy cyffredin o lawer – mae 51% wedi gwneud hyn ac mae 13% wedi ystyried ei wneud, gyda 36% heb wneud nag ystyried gwneud hyn.
- Yn ôl un pumed o ymatebwyr, maent wedi defnyddio, neu ystyried defnyddio modelau prisio penodol eraill ar gyfer mynediadau. Mae'r mathau mwyaf cyffredin o fodelau prisio a adroddwyd yn cynnwys, yn nhrefn cyffredinrwydd: codi tâl ar gyfer ymweliadau grŵp; codi tâl ar gyfer digwyddiadau, gweithdai a gweithgareddau eraill; rhoddion penodol, mynediad di-dâl, neu fodelau aelodaeth i ysgolion; disgowntiau ar gyfer archebu ar-lein / archebu o flaen llaw.

Os na chaiff ymatebwyr ble nad yw Gift Aid yn berthnasol eu cynnwys, mae'r canlyniadau yn dangos nad yw 38% o amgueddfeydd yn hawlio Gift Aid ar gyfer mynediadau, bod 34% yn hawlio Gift Aid ar fynediadau gan ddefnyddio'r cynllun pàs blynyddol, a bod 28% yn hawlio Gift Aid ar fynediadau gan ddefnyddio'r cynllun 10% ychwanegol.

Dim ond un traean o ymatebwyr a oedd yn adrodd casglu gwybodaeth am ddemograffeg ac amrywiaeth ymwelwyr. Yn gymharol i'w safle codi tâl, yn ôl yr arolwg roedd 23% o'r rhai nad ydynt yn codi tâl yn casglu gwybodaeth fel hyn, tra bod 37% o'r rhai sydd yn codi tâl yn casglu gwybodaeth fel hyn – gan ddangos fod y rhai sydd yn codi tâl yn fwy tebygol o gasglu gwybodaeth fel hyn (er mai lleiafrif o amgueddfeydd sy'n gwneud hyn – ychydig yn fwy na thraean ohonynt - 37%).



Meincnodau Codi Tâl

Meincnodau Codi Tâl

Mae'r tabl isod yn dangos prisiau ar gyfartaledd o'r arolwg ar gyfer yr amgueddfeydd hynny sydd yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol.

Canlyniadau Cyffredinol Meincnodi Priso Mynediad Amgueddfeydd

| | Cymedr (£) | Canolrif (£) | Gwerth is (£) | Gwerth Uwch (£) | Cyfrif |
|---------------|------------|--------------|---------------|-----------------|--------|
| Oedolyn | 8.99 | 7.60 | 2.00 | 45.00 | 210 |
| Consesiwn | 7.63 | 6.60 | 0 | 26.00 | 126 |
| Plentyn (hŷn) | 3.64 | 3.00 | 0 | 18.00 | 204 |
| Plentyn (iau) | 0.70 | 0 | 0 | 8.50 | 198 |
| Teulu | 26.46 | 24.00 | 7.00 | 77.00 | 105 |

Mae'r canlyniadau yn dangos:

- Y pris canolrifol ar gyfer tocyn oedolyn ar gyfer mynediad cyffredinol yw £7.60.
- Y pris canolrifol ar gyfer tocyn consesiwn ar gyfer mynediad cyffredinol yw £6.60.
- Y pris canolrifol ar gyfer tocyn plentyn iau ar gyfer mynediad cyffredinol yw £0.
- Y pris canolrifol ar gyfer tocyn plentyn hŷn ar gyfer mynediad cyffredinol yw £3.
- Y pris canolrifol ar gyfer tocyn teulu safonol ar gyfer mynediad cyffredinol yw £24.

Mae rhywfaint o amrywiaeth ddaearyddol o ran prisiau mynediad ar gyfartaledd – roedd y pris canolrifol i oedolyn yn Lloegr a'r Alban yn £8, tra'i fod yn £6.50 i amgueddfeydd yng Nghymru.

Mae amgueddfeydd yng Ngogledd Lloegr yn adrodd pris oedolyn is ar gyfartaledd na'r amgueddfeydd yng Nghanolbarth Lloegr neu'r De (£7 o'i gymharu ag £8.80 ac £8) a chonsesiynau (£5 o'i gymharu â £6.88 a £7). Yn ogystal â hyn:

- Ychydig iawn o amrywiaeth sydd yn y prisiau canolrifol yn ôl y math o amgueddfa ar gyfer oedolion, ond mae rhywfaint o amrywiaeth o ran mathau eraill o docyn. Tra bod ychydig iawn o amrywiaeth yn y prisiau mynediad canolrifol yn ôl y math o amgueddfa, mae'r tebygolrwydd o godi tâl ai peidio yn amrywio'n fwy. Felly, er nad yw prisiau yn amrywio llawer yn ôl math yr amgueddfa, mae'r tueddiad i godi tâl yn amrywio.
- Nid oes unrhyw amrywiaeth yn y pris canolrifol i oedolyn rhwng y prif categorïau o gyllido craidd.
- Mae'r pris canolrifol i oedolyn fel arfer yn is mewn ardaloedd sydd yn adrodd 'nad yw'n gystadleuol o gwbl' i ddenu ymwelwyr. I'r amgueddfeydd hynny sydd yn wynebu cystadleuaeth leol i ymwelwyr, nid yw cystadlu o ran pris yn ymddangos i fod yn strategaeth gyffredin – mae ardaloedd gyda chystadleuaeth fwy yn dangos prisiau canolrifol uwch yn gymharol.
- Mae'r prisiau mynediad canolrifol yn uwch i'r amgueddfeydd hynny sydd yn adrodd eu bod yn fwy arwyddocaol i economi ymwelwyr yr ardal leol.
- Po fwyaf yw'r amgueddfa, y mwyaf yw'r pris canolrifol i oedolyn (£6.75 i amgueddfeydd gyda hyd at 20,000 o ymweliadau; £12 i amgueddfeydd gyda rhwng 20,000 a 50,000 o ymweliadau; £13.50 i amgueddfeydd gyda rhwng 50,000 a 100,000 o ymweliadau, ac £19.80 i amgueddfeydd gyda mwy na 100,000 o ymweliadau).
- Mae pris canolrifol uwch gan yr amgueddfeydd hynny sydd yn adrodd fod 50%+ o'u hymwelwyr yn lleol o'u cymharu â'r rhai ble mae pobl leol yn cyfrif am lai na 50% o'u hymwelwyr.



Effaith Newidiadau i Strategaethau Prisio Mynediad



Effaith Newidiadau i Strategaethau Priso Mynediad

Fel y nodwyd yn flaenorol, adroddwyd 50% o ymatebwyr nad oeddent wedi ystyried newid eu safle codi tâl mynediad yn ystod unrhyw rai o'r cyfnodau o amser penodedig (rhwng 2018 a 2022). I'r amgueddfeydd hynny a oedd yn newid eu safle codi tâl mynediad, y math mwyaf cyffredin o newid o bell ffordd oedd cynnydd mewn costau mynediad (70% o'r rhai a wnaeth newid), ac wedyn cyflwyno math(au) newydd o docyn (30% o'r rhai a wnaeth newid). Mae gwneud newid mwy sylweddol wedi bod yn llai cyffredin, ond wedi digwydd – roedd 18% yn adrodd eu bod yn symud o godi tâl i fynediad di-dâl tra bod 11% yn adrodd symud o fynediad di-dâl i godi tâl.

I'r amgueddfeydd hynny a oedd yn cyflwyno **cynnydd mewn pris mynediad**, yr effaith mwyaf cadarnhaol yw bod cyfanswm yr incwm o fynediadau wedi cynyddu, gyda rhai hyd yn oed yn adrodd canlyniadau cadarnhaol o ran nifer yr ymwelwyr, a gwario eilaidd ar y safle. Roedd llawer o amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisiau yn adrodd fod ychydig iawn o effaith negyddol, gyda rhai yn darganfod eu bod wedi bod yn tanbrisio am rywfaint o amser.

Nid yw'n ymddangos mai mater i staff yn unig yw pryder am sensitifrwydd pris, a synnwyr cysylltiedig o nerfusrwydd, ac (ambell waith) ofnusrwydd ynghylch priso, gyda rhai amgueddfeydd yn adrodd pryderon a godir gan wirfoddolwyr, ac eraill sydd yn nodi amharodrwydd gan Ymddiriedolwyr wrth eu cyflwyno gydag argymhellion i godi prisiau gan staff.

Yr effaith mwyaf cadarnhaol o ran **cyflwyno'r math(au) newydd o docyn** yw cynnydd yn y cyfanswm o incwm mynediadau, ac yna nifer yr ymwelwyr a demograffeg ac amrywiaeth yr ymwelwyr. Adroddwyd dim newid gan lawer o amgueddfeydd fel yr effaith mwyaf cyffredin ar gyfer y mwyafrif o agweddau a ystyriwyd o ganlyniad i fathau o docyn yn newid. Nodwyd cynnydd yn y galw am basys blynyddol gan rai amgueddfeydd oherwydd yr argyfwng costau byw. Gellir ystyried hyn fel ymwelwyr yn ceisio cael rhagor o werth o'u hymweliadau.

Roedd symud o godi tâl mynediad i fynediad di-dâl fel arfer yn cynhyrchu niferoedd gwell o ymwelwyr yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar demograffeg ac amrywiaeth yr ymwelwyr a hefyd rhoddion digymell ar y safle. Adroddwyd effeithiau cadarnhaol eraill fel gwario eilaidd ar y safle a pherthynas yr amgueddfa â'r gymuned leol. Yr effaith mwyaf negyddol yw, heb syndod, ar incwm mynediadau.

Mae amgueddfeydd sydd yn **symud o fynediad di-dâl i godi tâl mynediad** yn amlygu'r effaith mwyaf cadarnhaol fel cynnydd yn y cyfanswm o incwm mynediadau, ac yna effeithiau cadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr ac amser aros yr ymwelwyr. Y tu hwnt i hyn, ni amlygwyd unrhyw newid gan lawer o amgueddfeydd yn nhermau'r effeithiau. Fodd bynnag, amlygwyd agweddau negyddol o ran nifer yr ymwelwyr



Patrymau, Arloesedd,
ac Arferion Da
Presennol ynghylch
Prisio Mynediad
Amgueddfeydd



Patrymau, Arloesedd, ac Arferion Da Presennol ynghylch Priso Mynediad Amgueddfeydd

Mae gwir gymysgedd o hyder a nerfusrwydd am godi tâl mewn amgueddfeydd. Mae rhai amgueddfeydd, rhai mwy ac annibynnol yn bennaf, yn hyderus am eu gwerth, ac yn canolbwyntio'n fasnachol ar arlwyio, masnachu, a digwyddiadau yn ogystal â mynediadau. Mae llawer o'r amgueddfeydd hyn yn adolygu mynediadau bob blwyddyn fel rhan o'u prosesau cynllunio busnes.

Casgliad clir yw nad yw priso yn gallu cael ei ystyried gan amgueddfeydd yn unig, rhaid iddo fod yn rhan o'r broses cynllunio busnes a rhaid iddo gael ei lywio gan werthoedd y sefydliad.

Tra bod rhai amgueddfeydd yn peidio â chodi tâl fel mater o egwyddor, mae carfan o amgueddfeydd yn dal i fodoli sydd â diffyg hyder yng nghynnig eu amgueddfa i naill ai codi tâl, neu gynyddu prisiau mynediad.

Mae llawer o amgueddfeydd yn defnyddio meincnodi fel rhan o'u prosesau gwneud penderfyniadau. Wrth wneud hyn, mae'n bwysig edrych ar berthnasedd cymaryddion, ac edrych ar eu cynnig, yr amgylchiadau a'r nodweddion allweddol, a pha un a yw cymariaethau yn rhesymol ac ystyrlon.

Mae tystiolaeth o rywffaint o symleiddio neu effeithlonni tocynnau, gyda llai o fathau o docyn yn cael eu cynnig, a thynnu consesiynau ar gyfer oedolion hŷn. Mae'r symleiddio hwn yn cynnig amrywiaeth o fanteision i amgueddfeydd, yn enwedig o ran cael proses haws a llyfnach ar flaen y tŷ i ymwelwyr a staff/gwirfoddolwyr.

Mae llawer o amgueddfeydd yn dal eu prisiau am ymweliadau ysgol, er bod 2023 wedi bod yn flwyddyn well na 2022 i lawer. Mae'r farchnad ysgolion yn dal i fod yn sensitif i ystyriaethau costau byw o ran pris mynediad a thrafnidiaeth, ac mae rhai amgueddfeydd yn cynnig disgowntiau i ysgolion lleol.

Mae'r mwyafrif o amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisiau mynediad yn adrodd ychydig iawn o agweddau negyddol gan gynulleidfaoedd dros hyn, ac yn adrodd dim gwahaniaeth o ran niferoedd ymwelwyr, ac ychydig iawn o dystiolaeth o elastigedd pris. Mae gwario eilaidd ar y safle fel arfer yn ymddangos i beidio â chael ei effeithio gan newidiadau mewn pris.

Mae symud o fynediad di-dâl i godi tâl ar gyfer mynediadau fel arfer yn lleihau niferoedd ymwelwyr, ond mae protest dorfol yn anghyffredin. Mae'r lleihad mewn niferoedd ymwelwyr yn bennaf oherwydd bod cyflwyno codi tâl yn atal ymweliadau cyflym a byr i'r amgueddfa, gydag amserau aros yn cynyddu o ganlyniad i hyn.

Mae amgueddfeydd mwy yn ystyried priso deinamig i reoli brigau (fel arfer trwy gynnig disgowntiau ar gyfer cyfnodau tawelach er mwyn rheoli capasiti), ac hefyd i annog cyfranogaeth gyda chynulleidfaoedd targed.

Mae darlun gymysg o docynnau ar-lein yn erbyn rhai wyneb yn wyneb, gyda llawer o amgueddfeydd yn adrodd fod y pandemig yn lleihau'r gyfran o ymwelwyr sy'n dod i brynu tocynnau ar y diwrnod. Nid yw'r mwyafrif o amgueddfeydd bellach yn cynnig disgowntiau ar gyfer archebu ar-lein.

Mae adolygu strategaeth brisio yn flynyddol (rheoli disgwyliadau ymwelwyr, staff a gwirfoddolwyr, ac osgoi 'neidiau mawr') yn arfer da, a rhaid i godiadau pris fod yn yn rhan o strategaeth gyffredinol.

Mae'n bwysig sicrhau bod amgueddfeydd yn ymgysylltu ac yn perswadio byrddau, rhanddeiliaid, staff a gwirfoddolwyr ynghylch strategaethau priso a mynediad. Mae cyfathrebu yn hollbwysig, ac ni ellir gorddweud pa mor hanfodol yw hyn.

Os ydy rhoddion yn rhan bwysig o strategaeth brisio amgueddfa, yna mae'n hanfodol i fod yn glir a chydgyssylltiedig ynghylch hyn. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu disgwyliadau o ran strategaethau tebyg i 'Pay What You Like', lleoliad pwyntiau cyfrannu yn yr amgueddfa, a'i wneud yn rhwydd (os nad yn haws) i wneud rhoddion heb ddefnyddio arian parod.



Association of
Independent
Museums



Art Fund_



Museums
Galleries
Scotland

Supporting Scotland's Museums



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DCResearch
Economics Heritage Culture

durninresearch